Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Dafydd Llwyd

Plantation Lane
Y Drenewydd
Powys
SY16 1JE

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Dafydd Llwyd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Dafydd Llwyd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 211 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 177 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 13.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 2.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Medi 2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 19/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Dafydd Llwyd yn gymuned ddysgu gynhwysol a gofalgar lle mae perthnasoedd cadarn rhwng staff a disgyblion yn sail gadarn i'w gwaith. Mae ymdeimlad cryf o berthyn yn nodwedd amlwg o fywyd yr ysgol. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn hapus ac yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn dangos ymddygiad da iawn ac agweddau cadarnhaol at eu dysgu o oedran cynnar.

Mae'r Gymraeg a Chymreictod yn rhan annatod o ethos a bywyd yr ysgol. Er mai ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol yn siarad Cymraeg, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau'n gadarn ac yn defnyddio'r iaith gyda hyder cynyddol mewn ystod eang o gyd-destunau creadigol. Mae hyn yn un o rinweddau nodedig y ddarpariaeth.

Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rheini o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson mewn ystod eang o fedrau. Er hyn, nid yw cynllunio athrawon bob amser yn sicrhau dilyniant digon clir yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion dros amser.

Mae ymrwymiad arweinwyr i hyrwyddo lles disgyblion a staff yn nodwedd gref o'u gwaith dyddiol. Trwy gyfleoedd arwain cynhwysol a mentrau gwerthfawr fel sesiynau 'Gwener Gwych', mae disgyblion yn datblygu medrau bywyd pwysig, magu hyder ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymuned yr ysgol. Ar yr un pryd, mae trefniadau cadarn ar waith i gefnogi cynnydd disgyblion sydd ag ADY.

Mae'r cwricwlwm yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn bwrpasol. Mae'r staff yn manteisio'n effeithiol ar gyfraniadau gwerthfawr rhieni, llywodraethwyr a phartneriaid cymunedol i gyfoethogi profiadau dysgu ac ehangu gorwelion disgyblion yn fwriadus. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn herio disgyblion yn ddigon cyson nac yn cynnig digon o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol ynghylch eu dysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a gweledigaeth glir a phwrpasol a chaiff ei gefnogi'n dda gan staff a llywodraethwyr ymroddedig. Gyda'i gilydd, maent wedi sefydlu diwylliant cadarn o hunanwerthuso a gwelliant parhaus sy'n canolbwyntio'n ddiwyro ar les a chynnydd disgyblion.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod profiadau’n herio disgyblion yn briodol ac yn eu cefnogi i wneud dewisiadau ystyrlon am eu dysgu

A2 Cryfhau cynllunio athrawon i sicrhau cynnydd a dilyniant clir yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion dros amser.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arweinyddiaeth gadarn ac ystyriol y pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ei weledigaeth, sy'n seiliedig ar sicrhau'r addysg orau bosibl i bob disgybl *'anelu'n uchel'* mewn amgylchedd deuluol, gynhwysol a Chymreig, wedi'i sefydlu'n gadarn ar draws cymuned yr ysgol.

Fel un tîm effeithiol, mae arweinwyr a staff yn modelu gwerthoedd cytûn yr ysgol ac yn cynnal safonau proffesiynol uchel yn gyson. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at greu ethos gofalgar, cynhwysol a diogel sy'n treiddio trwy fywyd yr ysgol. Mae disgwyliadau uchel a chyson staff yn cyfrannu at ymddygiad clodwiw ac ymrwymiad cadarn y rhan fwyaf o ddisgyblion i'w dysgu ac i fywyd yr ysgol.

Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r modd cynhwysol y mae staff yn darparu cyfleoedd arwain i bob disgybl. Trwy eu gwaith ar amrywiol bwyllgorau a grwpiau llais y disgybl, maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n gydwybodol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at fywyd yr ysgol a lles eu cyfoedion.

### Ciplun: Meithrin medrau bywyd a lles disgyblion trwy sesiynau 'Gwener Gwych'

Mae lles disgyblion a staff wrth galon gwaith yr ysgol, ac mae hyn yn treiddio drwy bob agwedd ar ei bywyd a'i gwaith. Mae staff a'r pwyllgorau disgyblion wedi cydweithio'n agos i sefydlu sesiynau 'Gwener Gwych' buddiol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau bywyd a chryfhau lles ar draws cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn manteisio'n fedrus ar arbenigedd staff, rhieni, ac aelodau o'r corff llywodraethol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Trwy ystod eang o weithgareddau ymarferol, gan gynnwys sesiynau cymorth cyntaf, coginio a gofalu am anifeiliaid, mae disgyblion o wahanol oedrannau yn cydweithio'n llwyddiannus ac yn datblygu eu hannibyniaeth, eu medrau cymdeithasol a'u hyder yn fwriadus. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i ddatblygu medrau bywyd pwysig trwy ymgymryd â phrofiadau newydd ac i feithrin perthnasoedd cadarnhaol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae staff yn cydweithio'n agos â theuluoedd ac asiantaethau allanol i ddarparu cefnogaeth briodol ac amserol, lle bo'n berthnasol. Maent yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn effeithiol i gefnogi eu lles a'u dysgu ac yn sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad cyfartal at weithgareddau dysgu.

O'u mannau cychwyn amrywiol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyson yn eu medrau yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Trwy gyfleoedd dysgu pwrpasol, mae bron bob disgybl yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn barchus i gyfraniadau eraill. Er mai ychydig iawn o

ddisgyblion sy'n cychwyn yn yr ysgol â medrau Cymraeg datblygedig, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gynyddol gywir a digymell mewn ystod o gyd-destunau diddorol.

### Ciplun: Hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod fel rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol. Mae staff, ynghyd â chefnogaeth werthfawr y 'Criw Cymraeg', yn cefnogi disgyblion i arddel a defnyddio'r Gymraeg yn gyson fel rhan greiddiol o'u chwarae a'u dysgu. Trwy ddefnyddio llwyfannau digidol yn greadigol ac ymweliadau rheolaidd â'r gymuned leol, mae'r 'Criw Cymraeg' yn modelu patrymau iaith defnyddiol ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn effeithiol. Mae hyn yn cymell disgyblion, staff sy'n ddysgwyr a rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus.

Yn ogystal, mae arweinwyr a staff yn cyfoethogi profiadau dysgu disgyblion yn fwriadus trwy gydweithio ag ystod eang o bartneriaid. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfweld â chwaraewraig pêl-droed rhyngwladol Cymru ar bodlediad ac yn cydweithio'n ddiwyd â dylunydd adnabyddus i greu comig yn seiliedig ar hanes y bardd Dafydd Llwyd. O ganlyniad i'r profiadau cyfoethog hyn, mae disgyblion yn meithrin dealltwriaeth gadarn o werth y Gymraeg fel iaith fyw ac yn ymfalchïo yn eu hunaniaeth Gymreig.

Mae'r ysgol yn meithrin diwylliant darllen cadarnhaol sy'n datblygu mwynhad disgyblion o ddarllen yn effeithiol. Mae cyfraniad 'Llysgenhadon y Llyfrgell', ymweliadau â'r llyfrgell leol a chyfleoedd i gyfarfod ag awduron Cymreig yn cyfoethogi profiadau darllen disgyblion yn fwriadus. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi datblygiad medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn barhaus a'u gallu i ddarllen yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae arweinwyr a staff hefyd yn cefnogi rhieni'n bwrpasol i ddatblygu darllen eu plant gartref trwy gynnal nosweithiau rhannu gwybodaeth defnyddiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meithrin eu medrau ysgrifennu'n dda, ac yn eu cymhwyso'n gyson ar draws y meysydd dysgu . Erbyn brig yr ysgol, maent yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig yn y ddwy iaith mewn ystod briodol o ffurfiau ac yn dangos gafael sicr ar nodweddion iaith. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau mathemateg yn llwyddiannus. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon i gymhwyso medrau rhifedd mewn cyd-destunau dilys. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio eu dealltwriaeth o drosi unedau mesur yn gywir wrth gynllunio a chreu sgarff ar gyfer cymeriad mewn stori er mwyn ei chadw'n gynnes yn ardal goed yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon bob amser yn sicrhau dilyniant digon clir yn natblygiad medrau rhifedd disgyblion dros amser.

Mae arweinwyr yn meithrin diwylliant dysgu proffesiynol cadarnhaol ac yn cefnogi datblygiad parhaus pob aelod o staff. Mae cynorthwywyr yr ysgol yn aelodau gwerthfawr

o'r tîm ac yn cyfrannu'n effeithiol at feithrin medrau disgyblion yn barhaus. Mae arweinwyr yn defnyddio arbenigedd staff yn bwrpasol i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn rhannu ac yn defnyddio eu harbenigedd digidol yn fwriadus i gefnogi datblygiad medrau disgyblion a chydweithwyr. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu medrau digidol wrth iddynt symud drwy'r ysgol ac i'w cymhwyso'n briodol mewn amrywiaeth o gyd-destunau dysgu perthnasol.

Mae staff yn darparu cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol. Maent yn gwrando a gweithredu ar syniadau'r disgyblion yn briodol wrth gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu diddorol sy'n dilyn eu diddordebau yn bwrpasol. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgolli yn eu dysgu ac yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni gweithgareddau dysgu. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth bob amser yn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am y dull y maent am gyflawni a chyflwyno eu dysgu.

Bron heb eithriad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae perthnasoedd gwaith cynhaliol rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gryf at awyrgylch gadarnhaol ar gyfer dysgu. Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu ac adnoddau amrywiol i gymell dysgu'r disgyblion yn bwrpasol. Maent yn defnyddio dulliau holi yn effeithiol gan annog disgyblion i ymestyn eu hymatebion yn fwriadus.

Ar y cyfan, mae staff yn defnyddio adborth llafar ac ysgrifenedig yn effeithlon i gefnogi a herio dysgu disgyblion trwy ddulliau pwrpasol, sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson yn eu dysgu. Yn gyffredinol, mae staff yn darparu profiadau dysgu sydd wedi eu cynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion disgyblion yn briodol. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn herio'r disgyblion i gyflawni hyd orau eu gallu yn ddigon cyson.

Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, dan do ac yn yr awyr agored, yn gyfoethog ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion chwarae, dysgu ac ymchwilio mewn amgylchedd ddiddorol. Yn ddiweddar, mae 'Ffrindiau'r Ysgol' wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu ardal 'Cysgod y Ddraig', sy'n cefnogi lles disgyblion yn bwrpasol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu ystod eang o fedrau mewn cyd-destunau awyr agored ysgogol.

Trwy sesiynau 'Crwydro'r Campws' pwrpasol, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau datrys problemau yn briodol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau'n briodol ac yn cydweithio'n ddiwyd â'u cyfoedion gan ddefnyddio ystod o adnoddau yn greadigol i gynllunio ac adeiladu pont i groesi'r afon er mwyn ceisio achub Sali Mali. Mae'r holl ddisgyblion yn cael profiadau gwerthfawr i feithrin eu hyder mewn amrywiaeth eang o weithgareddau creadigol, celfyddydol a chwaraeon, fel cystadlu yn yr eisteddfod a llwyddo mewn twrnameintiau chwaraeon yn lleol a chenedlaethol.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Trwy gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio, gan gynnwys defnyddio llecynnau tawel pwrpasol fel yr 'Heulfan', a thrwy gyfnodau cyd-addoli ystyrlon, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o'u teimladau, eu gwerthoedd a safbwyntiau eraill. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i ddangos parch at eraill a meithrin dealltwriaeth briodol o werthoedd a chredoau gwahanol.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu datblygu. Maent wedi sefydlu trefniadau hylaw ac effeithiol ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth, y dysgu a lles disgyblion. Mae'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda ac yn cyflawni ei ddyletswyddau'n gydwybodol. Maent yn cyfrannu'n weithredol at brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant, sy'n eu galluogi i gefnogi a herio arweinwyr yn briodol wrth bennu blaenoriaethau strategol cytûn a synhwyrol i gefnogi datblygiad parhaus yr ysgol.

Nodwedd gref o waith yr ysgol yw'r perthnasoedd cynhyrchiol y mae arweinwyr a staff wedi'u meithrin gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae rhieni yn gwerthfawrogi'r berthynas gadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref sy'n cyfrannu at ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned ddysgu glòs. Mae arweinwyr a staff yn manteisio'n dda ar fedrau ac arbenigeddau o fewn y gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion a chodi eu dyheadau. Er enghraifft, mae cyn-ddisgybl sy'n hyfforddwraig gyda thîm pêl-droed merched Cymru yn cynnal sesiynau pêl-droed sy'n ysbrydoli disgyblion ac yn ehangu eu hymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

Mae partneriaethau'r ysgol ag ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos, a'r Cylch Meithrin sydd ar y safle, yn cefnogi lles a dysgu disgyblion yn effeithiol. Trwy gydgynllunio bwriadus, rhannu arferion ac adnoddau yn gynhyrchiol, mae'r partneriaethau hyn yn helpu i sicrhau dilyniant ym mhrofiadau dysgu'r disgyblion wrth iddynt bontio rhwng cyfnodau addysg.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad.

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026